Ysgol Bodfeurig
'Dysgu drwy Hapusrwydd'
Cylchlythyr Haf 2015 Summer Newsletter

Ffarwelio - Farewell

Dymuniadau gorau i bob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar eu llwybrau amrywiol i'r ysgolion uwchradd. Mae pob un ohonoch wedi cael blynyddoedd hapus a cynhyrchiol iawn yma ac mae dyfodol disglair o flaen pob un ohonoch.Dymuniadau gorau a diolchiadau mwyaf i'r aelodau staff hynny sy'n ein gadael ar ddiwedd y flwyddyn.

Very best wishes to every one of our Year 6 pupils as they continue on their paths to their chosen secondary schools. Each one of you have had very happy and productive years at Ysgol Bodfeurigand you all have successful futures ahead of you.

Diolch – Thank You

Diolch i'r holl ddisgyblion , rhieni , llywodraethwyr a staff yr ysgol am eu holl waith a chefnogaeth i weledigaeth, gwerthoedd a chynlluniau'r ysgol dros y flwyddyn. Mae hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn a llawer o waith wedi ei gyflawni. Braf yw adrodd bod cydnabyddiaeth gan Estyn i'r holl ymdrechion hynny a bod gwaith yr ysgol yn cael ei chynnwys fel astudiaeth achos o ragoriaeth yn yr adroddiad thematig 'Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion.'

A big thank you to all pupils, parents, governors and staff members for all their efforts , work and support to the schools vision, values and work during the past year. It has been a very successful year for the school. It's a pleasure to note that the hard work has been recognised by Estyn as being outstanding practice included in the thematic report 'School-to-school support and collaboration'.

Canlyniadau - Results

Bu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i'n disgyblion Blwyddyn 2 a 6 eleni. Mae canlyniadau'r ysgol gyda'r gorau erioed ac yn adlewyrchiad o holl waith caled holl gymuned yr ysgol. Da iawn chi blantos!

It has been a very successful year for all our year 2 and year 6 pupils. Our end of key stage results are among our best ever and a reflection of all the school community's hard work. Well done you blantos!

Staffio - Staffing

Mae Ms Angharad Price wedi ei phenodi i ymgymryd a dyletswyddau dysgu a gofal dros Dosbarth Tryfan . Croeso i'r tîm dysgu.

Ms Angarad Price has been appointed to undertake teaching duties and responsibilities for Dosbarth Tryfan . Welcome to the teaching team.

Priodas – Wedding

Dymuniadau gorau i Ms Lliwen Owen a Mr Glynne Jones sydd yn priodi yn ystod yr haf. Pob bendith i'r ddau ohonoch i'r dyfodol yn eich bywyd priodasol. Edrychwn ymlaen i groesawu Mrs Jones atom fis Medi.

Best wishes to Ms Lliwen Owen and Mr Glynne Jones on their forthcoming wedding during the summer holidays. We wish you all the very best for a happy and prosperous future. We look forward to welcoming Mrs Jones back with us in September.

Arian Cinio – Dinner Money

Mae pris arian cinio yn codi i **£2.20 yn Mis Medi**. Gofynnwn yn garedig am daliadau drwy siec yn unig o fis Medi ymlaen ar ddydd Llun neu Gwener yn unig .Mae copi o'r fwydlen ar gael yn ôl y gofyn. Hoffwn ddiolch i Anti Anwen am fwydo holl blant a staff yr ysgol am y flwyddyn. Mae'r cinio ysgol gyda'r gorau yng Nghymru!

*School dinner's price will increase to **£2.20 from September**. We kindly ask for all payments to be made by cheque from September onwards. All payments to be made on Monday or Friday only please. A copy of the menu is available. A big thank you to Aunty Anwen for feeding all the children and staff members throughout the year. The dinners are amongst the best in Wales!*

Cyfeillion Ysgol Bodfeurig Friends

Diolch o galon i'r Cyfeillion am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl weithgareddau wedi llwyddo i godi dros £2000 i goffrau'r ysgol eleni. Un o lwyddiannau mwyaf y Cyfeillion eleni yw eu gwaith , ynghyd a'r Cyngor Ysgol a Tesco i drawsnewid y llecyn tywyll i fod yn ardd synhwyraidd ! Llecyn bendigedig a hyfryd dros ben i'r holl ddisgyblion a staff. Diolch o galon!!

Thank you to The Cyfeillion for all their hard work during the year. All the activities have succeeded in rising over £2000 for the school coffers this year. One of their main achievements this year has been the Sensory Garden project in collaboration with the School Council and Tesco. The hard work has succeeded in transforming a dark corner of the playground into a beautiful peaceful area for the pupils and staff members to enjoy. A huge thank you to you all!!

Gwefan - Website

Mae gwefan newydd yr ysgol yn fyw! Mae gwybodaeth, calendr digwyddiadau, lluniau ymweliadau a digwyddiadau a llawer mwy arni. Ewch arni www.ysgolbodfeurig.org

The school website is now live! School information, an events calendar, photos and much more can be found. Catch us on www.ysgolbodfeurig.org

Llwyddiant Chwaraeon – Sporting Achievement

Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn yr holl weithgareddau chwaraeon eleni. Mae'r disgyblion wedi cael profiadau lu mewn cystadlaethau rygbi, pêl-droed, nofion, athletau , criced yn ogystal a gweithgareddau awyr agored ac arlwy ysgol sy'n rhoi sylw mawr i ffitrwydd a chwaraeon cyson.

Congratulations to all our pupils on their sporting achievements and prowess this year. The pupils have had many fantastic experiences taking part in various events and competitions which include rugby, cricket, football, swimming, athletics as well as outdoor activities and a varied sports curriculum and a continuous focus on fitness.

Presenoldeb a Prydlondeb – Attendence and Punctuality

Mae'r ysgol yn cychwyn yn brydlon am 8:45yb. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd tir yr ysgol cyn 8:35yb cyn y gloch ganu. Mae'n angenrheidiol i bob rhiant gysylltu âr ysgol i adrodd am unrhyw absenoldeb.

The school starts promptly at 8:4 5am. We kindly ask each parent to ensure that your child/children is safely on school grounds before 8:35am before the school bell. It is necessary for parents to inform the school of any absences from school.

Dyddiadau'r Flwyddyn 2015-16 Dates for the Year

Tymor yr Hydref 2015 Autumn Term

- **Dechrau/ Start :** Dydd Mawrth, 1 Medi/ Tuesday, 1 September
- **Plant yn cychwyn/Children Start : Dydd Mercher, 2 Medi / Wednesday,2 September**
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 26 Hydref - ddydd Gwener, 30 Hydref
- **Half Term :** Monday, 26 October – Friday, 30 October
- **Gorffen/Finish:** Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr/Tuesday, 22 December

Tymor y Gwanwyn 2016 Spring Term

- **Dechrau/Start:** Dydd Llun, 4 Ionawr / Monday , 4 January
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 15 Chwefror - ddydd Gwener, 19 Chwefror
- **Half Term:** Monday, 5 February – Friday, 19 February
- **Gorffen/Finish:** Dydd Iau, 24 Mawrth / Thursday , 24 March

Tymor yr Haf 2016 Summer Term

- **Dechrau/Start :** Dydd Llun, 11 Ebrill/ Monday , 11 April
- **Calan Mai** (Gŵyl banc): Dydd Llun, 2 Mai
- **May Day** (Bank Holiday): Monday, 2 May
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 30 Mai - ddydd Gwener, 3 Mehefin
- **Half Term:** Monday,30 May – Friday, 3 June
- **Gorffen/Finish :** Dydd Llun, 18 Gorffennaf / Monday , 18 July
- **Dyddiau Hyfforddiant Athrawon i'w gadarnhau/ Staff training days to be confirmed**

Gwaith Cartref – Homework

Mae gwyliau haf yn amser i blant ymlacio a mwynhau bod yng nghwmni eu rhieni a teulu. Ni fydd yr ysgol yn gosod gwaith cartref ffurfiol dros y cyfnod hwn. Ond mae'r ysgol yn argymell i bob plentyn wneud rhai o'r canlynol:

- Darllen am o leiaf 10 munud bob dydd
- Ymweld a'r llyfrgell a chymryd rhan yn yr Ymgyrch Ddarllen
- Cadw bosc trysorau/dyddiadur neu blog
- Dysgu dweud yr amser a trin arian

School holidays are a special time for children to relax, play and enjoy the company of parents and family members. The school does not set any formal homework during this period. However , we do recommend that your child does some of the following:

- Read for at least 10 minutes a day
- Visit the local library and take part in the Reading Initiative
- Keep a treasure box/diary or blog
- Learn to tell the time and handle money

Amserlen Gwasanaeth Dosbarth / Class Service Timetable		
Dosbarth Ogwen	**25/9/15**	**Ogwen Class**
Dosbarth Tryfan	**9/10/15**	**Tryfan Class**
Dosbarth Idwal	**20/11/15**	**Idwal Class**

Diolch i chi gyd am flwyddyn wych! Mwynhewch y gwyliau . Ysgol yn ail-agor 2/9/15.
Thank you all for a fantastic year! Enjoy the holiday! School re-opens 2/9/15.